

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yn rhithiol am 7.00pm nos Fercher 26^{ain} o Ionawr 2022

Agenda

1. Presennol
2. Ymddiheuriadau
3. Cod Ymddygiad
4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 01-12-2021
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Adroddiad Ariannol
 - a) Hawlio Praesept
7. Archwyllo Allannol
8. Taliadau angen sylw

a) Cyflog Ionawr	£599.84
b) HMRC Ionawr	£150.00
c) Cymen Cyfieithu	£290.29
- Tal i mewn
- £250 Angladd H O DAVIES
9. Ceisiadau Nawdd
10. Prosiectau
 - a. Prosiect Ysgol Y Faenol
 - b. Logo Newydd
 - c. Trydan i'r Diffibs
 - d. Septic Tanc Glasinfryn
 - e. Drysau / Ffenestri Glasinfryn
11. I'w trafod hefyd
 - Cynllun Busnas

Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Is Bwyllgor Cyllid am 6.30pm nos Fercher 1^{af} o Rhagfyr 2021

1. Presennol Cyng L A James – Cadeirydd, Cyng D Jones-Morris a'r Cyng D W Jones Clerc E Jones

2. Ymddiheuriadau Cyng M Lynch; Cyng J Pierce a'r Cyng B. Jones

3. Cod Ymddygiad

Atgoffa pawb o'r Cod ymddygiad ond prif bwrpas y cyfarfod oedd i dynnu drafft cynllun Busnes 22-23

4. Derbyn cofnodion 27 o Hydref

Derbynwyd yn gofnodion cywir ar gynnig Cyng D Jones-Morris a'i Eilio gan Cyng D W Jones

5. Materion yn codi

Nid oedd unrhyw fater yn codi

6. **Mantolen ariannol**

Rhanwyd y fantolen ariannol oedd yn dangos £45,025.91c yn y cyfrif Cyfredol a £35,039.39 yn y cyfrif Cadw

7. **Archwilwyr allannol**

Dim diweddariad nac ymholiad wedi dod

8. **Ceisiadau Nawdd** Cais am nawdd gan papur bro Goriad

Argymhell i'r Cyngor Llawn i gyfrannu £300.00 eleni

Cais wedi ei dderbyn gan bwyllgor Canolfan Glasinfryn i ystyried trwsio/adnewyddu drysau tan y ganolfan oedd yn agor yn weddol rwydd ond anodd eu cau ag ar gost pwy. Argymhellwyd cael prisiau adnewyddo ar gost Cyngor Pentir fel perchnogion yr eiddo.

Argymhell drysau plastig ag edrych ar weddill y ganolfan o ran diogelwch a arbed ynni.

Clerc i chwilio am brisiau

9. **Taliadau** Argymhellwyd talu y cyfan oedd i law sef

- | | |
|----------------------------------|----------|
| ○ D W Lewis Torri gwair Tachwedd | £ 295.00 |
| ○ Neuadd Rhiwlas Storio offer | £240.00 |
| ○ HMRC Tachwedd | £ 150.00 |
| ○ Cyflog Tachwedd | £ 599.84 |
| ○ Torri Gwair Llwybrau Pentir | £970.00 |
| ○ Garddio ½ Blwyddyn | £600.00 |

10. **Drafft Cynllun Busnes** Trafodwyd prosiectau fyddai yn syrthio o fewn/cyd fynd a canllawiau/ cynllun Cyngor Gwynedd a/neu Llywodraeth Cymru parthed Newid Hinsawdd, Llesiant, Amgylchedd Diogelwch Cymunedol a.y.y.b Cytunwyd y byddai Cadeirydd a'r Clerc yn tynnu allan ddrafft i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ddechrau Ionawr **Argymhell cadw Praesept a'r yr un lefel sef £55K am y flwyddyn ariannol nesaf**